


LLOYD GEORGE, DAVID (1863 - 1945), yr IARLL LLOYD-GEORGE o DDWYFOR cyntaf, gwleidydd



**Enw:** David Lloyd George

**Dyddiad geni:** 1863

**Dyddiad marw:** 1945

**Priod:** Frances Louise Lloyd George (née Stevenson)

**Priod:** Margaret Lloyd George (née Owen)

**Plentyn:** Megan Arfon Lloyd George

**Plentyn:** Olwen Elizabeth Carey Evans (née Lloyd George)

**Plentyn:** Mair Eluned Lloyd George

**Plentyn:** Gwilym Lloyd George

**Plentyn:** Richard Lloyd George

**Rhiant:** Elisabeth George (née Lloyd)

**Rhiant:** William George

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gwleidydd

**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

**Awdur:** Edward Morgan Humphreys

Ganwyd No. 5, New York Place, Manceinion, 17 Ionawr 1863, yn fab i William George, Tre-coed, Sir Benfro, ac Elizabeth, merch David Lloyd o Lanystumdwy. Ar ôl marw'i dad yn sir Benfro yn 1864, symudodd ei fam a'r plant i fyw gyda'i brawd, Richard Lloyd yn Llanystumdwy. Addysgwyd Lloyd George yn ysgol genedlaethol Llanystumdwy. Bu'n llwyddiannus yn arholiad cyntaf y Gyfraith yn 1877, ac yn yr arholiad terfynol gydag anrhedd yn 1884. Cychwynnodd ar ei yrfa fel cyfreithiwr yng Nghricieth yn 1885, ac enillodd fri fel dadleuwr eofn a siaradwr huawdl. Daeth i'r amlwg yn 1888 fel cyfreithiwr yn amddiffyn yn yr achos a elwid 'The Llanfrothen Burial Case', achos a enillodd, wedi apel. Ym mis Tachwedd 1888, mabwysiadwyd ef yn ddarpar ymgeisydd seneddol Rhyddfrydol dros fwrdeistrefi Caernarfon. Ar farwolaeth Edmund Swetenham, yr aelod Torïaidd, ymladdodd Lloyd George yr etholiad ac ennill y sedd gyda mwyafrif o 18, 10 Ebrill 1890. Cymerodd ei le yn Nhŷr Cyffredin ar 17 Ebrill, a thraddododd ei arraith gyntaf ar 13 Mehefin. Yn ystod ei dymor cyntaf yn y senedd, materion Cymreig, megis datgysylltiad a phwnc y tir, a'i diddorai'n bennaf, ac yn 1894 ef oedd arweinydd y pedwar aelod Cymreig (LL.G. ei hun, D. A. Thomas, J. Herbert Lewis a Francis Edwards) a wrthwynebodd weinyddiaeth Rosebery oherwydd ei hagwedd tuag at broblem datgysylltiad yng Nghymru. Yn yr un cyfnod, yng Nghymru ei hun, yr oedd yn gweithio dros fudiad Cymru. Fydd a thros uno'r ddua Ffederasiwn Rhyddfrydol.

Yn y senedd ac ar hyd a lled y wlad gwrthwynebodd a beirniadodd y modd yr ymleddid Rhyfel De Affrica (1899-1902). Pan geisiodd annerch cyfarfod Rhyddfrydol yn Birmingham ym mis Rhagfyr 1901, bygythiwyd ef gan y dorf, a bu mewn perygl am ei einioes. Bu am gyfnod yn amhoblogaidd iawn, ond yn etholiad 1900 cadwodd ei sedd gyda chynnydd yn ei fwyafrif.

Pan ddaeth Mesur Addysg Balfour ger bron yn 1902, Lloyd George oedd arweinydd y gwrthwynebiad Radicalaidd ac Anghyddffuriol i'r mesur, ac yng Nghymru bu'n gyfrifol am gynllun i'r cyngorau sir wrthod gweithredu'n unol a'r ddeddf.

Yn Rhagfyr 1905 pan ffurfiwyd gweinyddiaeth Ryddfrydol, penodwyd ef yn llywydd y Bwrdd Trafnidiaeth, a rhoddwyd iddo sedd yn y Cabinet. Dangosodd allu gweinyddol eithriadol, talent adeiladol, a dawn arbennig fel cyfaddawdwr pan godai anghydfod diwydiannol. Ym misoedd Hydref a Thachwedd 1907, llwyddodd yn ei ymdrechion i osgoi streic ar y rheilffyrdd. Yn ystod ei gyfnod fel penneth y Bwrdd Trafnidiaeth, bu'n gyfrifol am nifer o ddeddfau pwysig, yn eu plith y Merchant Shipping Act, 1906, Patents and Designs (Amendment) Act, 1907, a'r Port of London Act, 1908.

Ym mis Ebrill 1908, pan benodwyd H. H. Asquith yn Brif Weinidog, cymerodd Lloyd George ei le fel Canghellor y Trysorlys, ac ef a fu'n gyfrifol am gael Mesur Pensiynau'r Henoed drwy Dy'r Cyffredin, tasg a ddechreusasid gan Asquith ei hun. Yn 1909 cyflwynodd ei gyllideb gyntaf, a luniwyd gyda'r amcan o godi arian i hyrwyddo gwelliannau cymdeithasol. Disgrifiwyd hon fel cyllideb fwyaf dadleuol ein cyfnod. Gwrthodwyd hi gan Dy'r Arglwyddi, ac fel canlyniad cafwyd Deddf Senedd 1911. Ym mis Awst 1910, ceisiodd Lloyd George gael undeb rhwng y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr, ond ofer fu'r ymgais. Ar 4 Mai 1911 cyflwynodd ei fesur Yswiriant Cenedlaethol, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer afiechyd a diweithdra, mesur a dderbyniodd gadarnhad brenhinol ym mis Rhagfyr.

Yng nghyllideb 1911 gwnaed darpariaeth ar gyfer talu cyflog i aelodau seneddol. Mewn arraith yn y Mansion House ar 21 Gorffennaf 1911, rhybuddiodd Lloyd George yr Almaen, na oddefai Prydain unrhyw ymosodiad yn Morocco. Fel canlyniad i'r arraith hon, galwodd y Kaiser am ei ddiswyddiad. Ar 29 Mehefin 1912, cychwynnodd ei ymgyrch ynglyn â phwnc y tir, a sefydlwyd pwyllgor ymchwil. Yn yr un flwyddyn, penodwyd pwyllgor arbennig o aelodau Ty'r Cyffredin i archwilio cyhuddiadau yn erbyn rhai o'r gweinidogion, yn eu plith Lloyd George, ynglyn â'u cysylltiadau â'r American Marconi Company.

Pan gyhoeddwyd rhyfel yn erbyn yr Almaen ym mis Awst 1914, syrthiodd i ran Lloyd George, fel Canghellor y Trysorlys, i reoli sefyllfa ariannol y wlad, a hynny mewn amgylchiadau anodd. Ym mis Mai 1915, pan ffurfiwyd y llywodraeth unedig gyntaf, penodwyd ef yn Weinidog Arfau, ac ef a ddilynodd yr Arglwydd Kitchener fel Ysgrifennydd Rhyfel, pan fu farw'r gwr hwnnw ym mis Mehefin 1916. Ym mis Rhagfyr 1916, ymddiswyddodd Asquith, a dilynwyd ef fel Prif Weinidog gan Lloyd George. Un o'r pethau pwysicaf a gyflawnodd yn y swydd hon yn ystod y rhyfel oedd creu unoliaeth ymhliith arweinwyr lluoedd arfog y cynghreiriaid. Wedi'r cadoediad yn 1918, penderfynodd ar etholiad, ac fel canlyniad cafwyd llywodraeth unedig tan ei arweiniad gyda mwyaf o 345 dros yr holl bleidiau eraill. Pan agorwyd y Gynhadledd Heddwch ar 18 Ionawr 1919, yr oedd Lloyd George yn un o'r tri gwr mwyaf blaenllaw yno. Ar ôl trafodaeth hir, llwyddodd i gael y Cytundeb Gwyddelig wedi ei arwyddo ym mis Rhagfyr 1921. Ym mis Hydref 1922 ymddiswyddodd yr aelodau Ceidwadol o'r llywodraeth. Fel canlyniad i hyn yr oedd yn amhosibl i'r llywodraeth unedig barhau, ac ymddiswyddodd Lloyd George. Er iddo ymdroi ym myd gwleidyddiaeth am rai blynnyddoedd eto, ni ddaliodd unrhyw swydd ar ôl hyn. Yn 1926 cychwynnodd yr Ymchwiliad Diwydiannol Rhyddfrydol. Mewn arraith ym Mangor, ym mis Ionawr 1934, rhoddodd amlinelliad o'i gynllun i ail adeiladu ein ffyniant cenedlaethol, sef polisi'r ' New Deal ', a oedd i'w weithredu drwy'r pwyllgor a elwid ' The Council of Action '.

Rhwng 1933 a 1936 ysgrifennodd ei *War Memoirs*, ac yn 1938 cyhoeddodd *The Truth about the Peace Treaties*. Ymwelodd â'r Almaen yn Awst 1936, a chyfarfod â Hitler. Ni chymerodd unrhyw ran yn y gorchwyl o gyfarwyddo'r Ail Rhyfel Byd, ond parhaodd i fod yn aelod o Dy'r Cyffredin hyd Ionawr 1945, pan ymddeolodd a'i wneud yn iarll, gyda'r teitlau larll Lloyd George o Ddwyfor, ac Is-larll Gwynedd. Dychwelasai i'w gartref, Ty Newydd, yn Llanystumdwyr, yn 1944, a bu farw yno 26 Mawrth 1945. Claddwyd ef, yn ôl ei ddymuniad, ar y llechwedd coedig uwchlaw afon Dwyfor, ger ei gartref.

Priodasai 24 Ionawr 1888, [Margaret Owen](#), merch Richard Owen, Mynydd Ednyfed, Cricieth. Bu iddynt bump o blant, [Richard](#) (a'i dilynodd fel iarll) 1889 -; [Mair Eluned](#) (1890 - 1907); Olwen Elizabeth, 1892 -; [Gwilym](#) (Arglwydd Tenby), 1894 - 1967; [Megan](#), 1902 - 1966. Gwnaethpwyd ei wraig yn Dame Grand Cross of the British Empire yn 1918. Bu hi farw 20 Ionawr 1941. Priododd Lloyd George yn ail, 23 Hydref 1943, Frances Louise, merch John Stevenson o Wallington, Surrey.

Anrhodeddwyd ef â'r Order of Merit yn 1919, a'r Legion of Honour yn 1920. Ef oedd cwnstabl castell Caernarfon o 1908. Cafodd raddau anrhodeddus LL.D. (Cymru), 1908; D.C.L. (Rhydychen); LL.D. (Caeredin), 1918; LL.D. (Sheffield), 1919; a LL.D. (Birmingham), 1921, a gwnaed ef yn gymrawd anrhodeddus o Goleg lesu, Rhydychen, 1910.

## Awdur

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

## Ffynonellau

Malcolm Thomson a Frances, Iarlles Lloyd George o Ddwyfor, *David Lloyd George. The official biography. By M. Thomson with the collaboration of Frances, Countess Lloyd-George of Dwyfor, etc.* (Llundain 1948)

Iarll Lloyd George o Ddwyfor, *Dame Margaret; The Life Story of his Mother by Viscount Gwynedd, now Earl Lloyd George of*

Dwyfor (Llundain 1947)

David Lloyd George, *War Memoirs of David Lloyd George* (Llundain 1933-36), chwe chyfrol

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Who was who?*, 1941-50

## Darllen Pellach

B. B. Gilbert, *David Lloyd George: a political life: The architect of change, 1863-1912* (Columbus 1987)

Cyril Parry, *David Lloyd George* (Dinbych 1984)

Emyr Price, *Lloyd George y cenedlaetholwr Cymreig: arwr ynteu bradwr?* (Llandysul 1999)

John Grigg, *Lloyd George: the young Lloyd George* (London 2002)

John Grigg, *Lloyd George: The people's champion 1902-1911* (London 1997)

John Grigg, *Lloyd George: From peace to war 1912-1916* (London 1997)

Stephen Constantine, *Lloyd George* (London 1992)

J. Graham Jones, *Lloyd George papers at the National Library of Wales and other repositories* (Aberystwyth 2000)

Emyr Price a Paul O'Leary (gol.), *David Lloyd George* (University of Wales Press 2005)

[Dyddiadur David Lloyd George, 1886](#)

[Llythyron gan David Lloyd George at ei frawd](#)

[Arddangosfa David Lloyd George](#) ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Archifau LIGC: [Etholiad Bwrdeisdrefi Arfon: Hanes Seneddol Mr. Lloyd George a Syr John Puleston](#)

Archifau LIGC: [Etholiad 1895: Fotiwch i Mr. Lloyd-George](#)

Archifau LIGC: [General Election, 1900: To the Free & Independent Electors of the Carnarvon District Boroughs](#)

Archifau LIGC: [Mr. Lloyd George's Parliamentary Record from 1895 to 1900](#)

Archifau LIGC: [Etholiad Cyffredinol, 1906: At Etholwyr Rhydd ac Annibynol Bwrdeisdrefi Arfon](#)

Archifau LIGC: [Carnarvon District Boroughs. Parliamentary Election, 1906](#)

Archifau LIGC: [General Election 1906 Wales and Monmouthshire. A Souvenir containing photographs, biographical sketches etc., of all the Welsh MP's: The Right Honourable David Lloyd-George](#)

Archifau LIGC: [Trech Gwlad nag Arglwydd. Yr Arglwyddi yn Erbyn y Bobl. Etholiad Cyffredinol, 1910. Bwrdeisdrefi a Dosbarth Arfon.](#)

Archifau LIGC: [Songs of the Budget](#)

Archifau LIGC: [Mr Lloyd George and the Humanity of Liberalism](#)

Archifau LIGC: [Y Rhyfel! Araeth fawr Mr. Lloyd George](#)

Archifau LIGC: [Unity or Disruption? A Clarion Call to Wales.](#)

Archifau LIGC: [What the Lloyd George Coalition Government has done for Women](#)

[David Lloyd George](#), Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru

Erthygl Wicipedia: [David Lloyd George](#)

## Delweddau

Christopher Williams, [David, 1st Earl Lloyd George \(1863-1945\)](#)

## Gweithiau

David Lloyd George, [Drwy arswyd i'r orsedd](#) (Llundain 1914)

David Lloyd George, [The Task before us](#) (London 1915)

David Lloyd George, [Eich gwlad a'ch cais](#) (London 1914)

## Sain a Ffilm

LIGC: [The Life Story of David Lloyd George](#)

Ffion Hague: [Lloyd George and Welsh Liberalism](#)

AGSSC: [David Lloyd George's Golden Wedding Anniversary](#)

AGSSC: [Anghedd David Lloyd George yn Llanystumdwyr Grogolith 1945](#)

Welsh Political Icons: [David Lloyd George](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [59148536](#)

Wikidata: [Q134982](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

